O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2539 (Cy.278)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffyrdd yr A494 a’r A550 (Cyfnewidfa Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Wedi’i wneud* | *24 Hydref 2011* |
| *Yn dod i rym* | *1 Tachwedd 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – man i’r De o Birkenhead (A494 a’r A550) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel “y cefnffyrdd”), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd gael ei wahardd oherwydd gwaith ffyrdd y bwriedir ei wneud.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Tachwedd 2011 a’i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A494 a’r A550 (Cyfnewidfa Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” *(“exempted vehicle”)* yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” *(“works period”)* yw’r cyfnod hwnnw sy’n dechrau am 22:00 o’r gloch ar 1 Tachwedd 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr “y darnau o'r cefnffyrdd” *(“the lengths of the trunk roads”)* yw'r darnau o gefnffyrdd yr A494 a’r A550 yng Nglannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y mae’n cyfeirio ato yn weithredol.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 24 Hydref 2011

*G R Morgan*
**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## ATODLEN

Y darn o gerbytffordd cefnffordd yr A550 tua’r de sy’n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr hyd at ei chyffordd â cherbytffordd yr A494 tua’r de-orllewin.

Y darn o ffordd ymuno’r A494/A550 tua’r gogledd sy’n ymestyn o’i chyffordd â chyfnewidfa’r A548/A494 hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd yr A550 tua’r gogledd.

Y darn o gerbytffordd cefnffordd yr A550 tua’r gogledd sy’n ymestyn o’i chyffordd â cherbytffordd yr A494 tua’r gogledd-ddwyrain hyd at ffin Cymru/Lloegr.

Y darn o ffordd gyswllt yr A494 tua'r gorllewin at yr A548 sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr hyd at ei chyffordd â chyfnewidfa'r A548/A494.

Y darn o gerbytffordd cefnffordd yr A494 tua'r dwyrain sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd yr A550 tua'r gogledd hyd at ffin Cymru/Lloegr.